CERDDWYR CYLCH TEIFI

21/10/2022

Annwyl Gynghorwyr,

Ysgrifennaf atoch ar ran Tîm Arwain Cerddwyr Cylch Teifi. Rydym yn grŵp sy'n trefnu teithiau cerdded yn fisol o gwmpas yr ardal hon, ac mae ein haelodau yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. Yn ogystal â dod i adnabod yr ardal yn well, mae yn nod gyda ni i helpu'r rhai sy'n dysgu Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn gymdeithasol.

O ddilyn y newyddion diweddar, rydym yn teimlo mai camgymeriad mawr fyddai cau'r llwybr troed ar hyd yr afon o Landudoch i Aberteifi, er ei fod mewn cyflwr anodd ar hyn o bryd. Mi fyddai ei ail agor yn ychwanegu at atyniadau naturiol yr ardal yn fawr, gan roi cyfle i bobl gerdded ar hyd llwybr deniadol a diddorol. Mae cerdded llwybrau wedi datblygu i fod yn faes diddordeb mawr yn ystod y cyfnod hwn, a'r newyddion arferol yw clywed am lwybrau newydd yn cael eu hagor. Caiff hynny ei groesawu gan drigolion lleol, ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae cyfraniad cerdded at iechyd corfforol a meddyliol yn amlwg, ac mae cefnogaeth gadarn gan y llywodraeth i'r gweithgarwch.

Mae'r llwybr hwn yn dal i'w weld ar fapiau, a digwyddiad pur gyffredin yw clywed pobl yn holi am y llwybr, a sut mae cyrraedd ato. Siom i rheiny yw deall nad yw'n bosib ei dramwy mwyach.

Gaf i, ar ran Cerddwyr Teifi, apelio atoch felly i gefnogi'r syniad nid o gau, ond o ail agor y llwybr hwn? Byddai'n adnodd gwerthfawr i'r ardal, ac yn estyniad naturiol i'r llwybrau sydd eisoes ar gael yn Aberteifi a Llandudoch. Bu cynlluniau yn y gorffennol i'w adfer, a da o beth fyddai gweld ymholiadau a chynllunio'n digwydd i sicrhau bod modd cerdded y llwybr hwn unwaith eto.

Yn gywir, ar ran Cerddwyr Teifi,

Terwyn Tomos

TEIFI CIRCLE WALKERS

21/10/2022

Dear Councillors,

I am writing to you on behalf of the Cylch Teifi Walkers Guide Team. We are a group that organizes monthly walks around this area, and our members include Welsh speakers and learners. As well as getting to know the area better, it is our aim to help those who learn Welsh to use the language naturally socially.

Following the recent news, we feel that it would be a big mistake to close the footpath along the river from Llandudoch to Cardigan, even though it is in a difficult state at the moment. Re-opening it would greatly add to the area's natural attractions, giving people the opportunity to walk along an attractive and interesting path. Trail walking has developed into an area of great interest during this period, and the usual news is to hear about new trails being opened. That is welcomed by local residents and visitors alike. The contribution of walking to physical and mental health is obvious, and there is solid government support for the activity.

This route can still be seen on maps, and it is quite common to hear people asking about the route, and how to get to it. It is a disappointment for those to understand that it is no longer possible to pass through it.

May I, on behalf of Teifi Walkers, therefore appeal to you to support the idea not of closing, but of reopening this path? It would be a valuable resource for the area, and a natural extension to the paths that are already available in Cardigan and Llandudoch. There have been plans in the past to restore it, and it would be good to see inquiries and planning taking place to ensure that this path can be walked once again.

Sincerely, on behalf of Teifi Walkers,

Terwyn Tomos